Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bryn Castell
# Campws Bryncethin
# Abergarw Road
# Brynmenyn
# Pen-y-bont ar Ogwr
# CF32 9NZ

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Bryn Castell

Mae Ysgol Bryn Castell ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn ysgol arbennig a gynhelir ar gyfer disgyblion 7-19 oed sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol ac ystod eang o anghenion eraill, gan gynnwys anhwylder y sbectrwm awtistig (ASA).

Ar hyn o bryd, mae 147 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol.  Mae'r nifer hon yn newid yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn, o ganlyniad i dderbyniadau gan yr awdurdod lleol.

Mae canran y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, sef ychydig dros 51%, yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.  Mae tua 11% o ddisgyblion yn derbyn gofal gan awdurdod lleol (PDG).  Mae llai na 10% o ddisgyblion o gefndiroedd diwylliannol heblaw gwyn Prydeinig.  Nid oes unrhyw ddisgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg fel iaith yr aelwyd.  Mae gan ychydig llai na hanner y disgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion wedi profi cyfnodau sylweddol o aflonyddwch i'w dysgu ffurfiol cyn iddynt gyrraedd yr ysgol.  Mae llawer ohonynt yn ymuno â'r ysgol mewn cyfnodau o argyfwng personol, yn aml tuag at ddiwedd eu haddysg orfodol, ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn academaidd.  Caiff llawer o ddisgyblion gymorth amlasiantaethol y tu allan i'r ysgol i sicrhau eu diogelwch.  O ganlyniad, mae amrywiaeth sylweddol ym mannau cychwyn unigol disgyblion, eu cymhelliant a'u gallu i ddysgu.

Arwyddair yr ysgol yw 'gyda'n gilydd, gallwn gyflawni' ('together we can achieve'), a nod yr ysgol yw annog yr holl ddisgyblion i ddychwelyd i addysg, cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu, a bod yn bobl ifanc wydn, ddyfeisgar a myfyriol.

Mae'r ysgol wedi bod ar safle presennol Campws Bryncethin er 2015.  Mae wedi'i chyd-leoli â Darpariaeth Amgen y Bont a'i Gwasanaeth Ymddygiad a Lles.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers pum mlynedd.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/Schools/SchoolSearch?lang=cy

## Crynodeb

Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn dda i ethos cadarnhaol yr ysgol o ofal a chymorth, a gwnânt gynnydd cryf mewn dysgu mewn perthynas â'u hanghenion a'u galluoedd.  Erbyn iddynt adael yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran datblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i ymgysylltu'n llwyddiannus â dysgu.

Mae gan lawer o ddisgyblion safonau lles da.  Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r disgyblion yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol a pharchus iawn gyda staff a'u cyfoedion.  Maent yn gwerthfawrogi ethos gofalgar, cynhwysol a chroesawgar yr ysgol, lle cânt eu hannog i gymryd cyfrifoldeb amdanynt eu hunain, a chynorthwyo pobl eraill.

Mae athrawon yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda'u disgyblion ac yn rhoi profiadau llawn cymhelliant iddynt er mwyn ysgogi eu hymgysylltiad.  Er gwaethaf anghenion cymhleth, emosiynol ac ymddygiadol y disgyblion, mae'r amgylchedd dysgu yn gyson bwyllog a threfnus.

Trwy amgylchedd diogel a chefnogol, mae staff yn galluogi disgyblion i ddatblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i fod yn llwyddiannus a hapus.  Mae'r ffocws ar sefydlu ymddygiadau, perthnasoedd gwaith a lles cadarnhaol, yn nodwedd gyson gryf yng ngwaith yr ysgol.

Mae'r ysgol yn elwa ar weledigaeth ac uchelgais y pennaeth i wella deilliannau disgyblion trwy ystod gymhellol o brofiadau o ansawdd uchel i gefnogi eu dysgu a'u lles.  Mae uwch dîm rheoli a gryfhawyd yn ddiweddar yn dechrau dylanwadu ar newid mewn darpariaeth, yn enwedig ar gyfer carfan gynyddol y disgyblion ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella presenoldeb disgyblion

A2 Sicrhau bod pob un o’r athrawon yn meddu ar ddealltwriaeth glir o gynnydd disgyblion, a’r camau nesaf ar gyfer eu dysgu

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu, sy’n dangos sut bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb i ethos cadarnhaol yr ysgol o ofal a chymorth, ac yn gwneud cynnydd cryf.

Nid yw'n briodol cymharu'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yn yr ysgol gyda chyfartaleddau cenedlaethol nac i ddadansoddi tueddiadau mewn perfformiad dros gyfnod oherwydd ystod eang anghenion addysgol arbennig disgyblion. Nid oes unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad pob un o'r disgyblion, a pherfformiad bechgyn na merched, y disgyblion hynny sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim na'r rheiny sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

Erbyn iddynt adael yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd sylweddol o ran datblygu'r medrau cyfathrebu sydd eu hangen arnynt i ddysgu'n llwyddiannus. Defnyddiant eu medrau yn hynod effeithiol yng nghaffi'r ysgol, gan weini'n gwrtais a pharatoi bwyd o safon uchel. Mewn gwersi, maent yn gwrando'n ofalus ar eu staff addysgu ac ar ei gilydd, ac yn dilyn cyfarwyddiadau ac arweiniad gan staff yn briodol. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda mewn parau a thimau, ac yn dangos annibyniaeth gynyddol wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae mwyafrif y disgyblion yn dysgu cymhwyso'r medrau pwysig hyn yn llwyddiannus yn y gymuned hefyd, er enghraifft pan fyddant ar ymweliadau addysgol neu leoliadau gwaith. Mae hyn yn helpu magu eu hyder ac yn eu paratoi'n effeithiol ar gyfer trosglwyddo i addysg bellach neu gyflogaeth pan fyddant yn gadael yr ysgol.

Mae disgyblion hŷn yn datblygu medrau ymarferol a galwedigaethol defnyddiol mewn pynciau fel technoleg bwyd, gofal anifeiliaid ac adeiladu. Maent yn cymhwyso'r medrau hyn mewn lleoliadau profiad gwaith gwerth chweil gydag ystod eang o gyflogwyr lleol, er enghraifft mewn siopau, cwmni adeiladu a chartref cŵn. Mae ychydig o ddisgyblion yn elwa ar gyfleoedd rheolaidd i ddatblygu eu medrau arlwyo wrth weithio yng nghaffi'r ysgol, sef 'Y Cwpan Bach'. Mae disgyblion sy'n gweld dysgu ffurfiol yn fwy heriol yn datblygu medrau ymarferol gwerthfawr trwy brosiectau cymunedol a gefnogir gan gydlynydd addysg yr ysgol oddi ar y safle, sef 'y dyn mewn fan'. Mae'r prosiectau hyn yn cynnwys atgyweirio ac addurno canolfan ieuenctid leol, peintio ffensys a phrosiectau garddwriaeth.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn dda trwy gyfleoedd amserlenedig ar gyfer ymarfer corff. Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2, er enghraifft yn datblygu eu ffitrwydd, eu cryfder a'u cydsymud wrth gwblhau sesiynau hyfforddiant cylchol. Mae disgyblion ôl-16 yn cymryd rhan yn llwyddiannus mewn teithiau gwersylla. Mae ychydig o ddisgyblion sy'n fwy agored i niwed sydd mewn perygl o ymddieithrio o ddysgu, yn cymryd rhan mewn gweithgareddau heriol fel cerdded ceunentydd a chaiacio, sy'n helpu meithrin eu gwydnwch a'u hunan-barch. Mae'r cynnydd a wna disgyblion yn y meysydd hyn yn eu paratoi'n effeithiol iawn ar gyfer eu bywydau yn y dyfodol, ac mae'n gryfder nodedig yn yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o ran datblygu eu medrau darllen. Er enghraifft, defnyddiant ystod o strategaethau addas i ddod o hyd i wybodaeth mewn testunau ffeithiol a naratif. Dros gyfnod, mae llawer o ddisgyblion

yn gwella ansawdd eu gwaith ysgrifenedig, yn enwedig cywirdeb eu sillafu a'u hatalnodi. Mae disgyblion mwy abl yn crynhoi'n llwyddiannus y prif ddigwyddiadau mewn stori, yn rhoi disgrifiadau manwl o reolau tennis byr, neu'n defnyddio odli'n llwyddiannus i greu eu cerdd eu hunain ar sail cyfarchiad y gwrachod i Macbeth.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas â'u medrau rhifedd. Maent yn atgyfnerthu eu dealltwriaeth o reolau sylfaenol rhif trwy ymarfer ac asesu rheolaidd, ac yn datblygu cywirdeb eu medrau mesur a chyfrifo yn dda. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu eu medrau cofnodi data gan ddefnyddio tablau, graffiau syml a siartiau. Maent yn cymhwyso'r medrau hyn yn briodol i senarios bywyd go iawn, fel darganfod prisiau yn y sinema neu wrth gyfrifo'r arwynebedd a'r deunyddiau sydd eu hangen i greu gwely blodau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol mewn gwersi TGCh ac ar draws yr ysgol i ymchwilio a dod o hyd i wybodaeth berthnasol, paratoi cyflwyniadau, neu ailddrafftio eu gwaith ysgrifenedig. Mewn gwersi TGCh, mae disgyblion yn datblygu eu medrau rhaglennu wrth greu gemau ar-lein neu raglennu robotau model i symud a siarad.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o ran datblygu eu dealltwriaeth o'r Gymraeg. Maent yn datblygu eu hyder ac yn ymarfer eu medrau yn ystod arhosiad preswyl yng ngwersyll yr Urdd yn Llangrannog. Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru yn effeithiol.

Erbyn iddynt adael yr ysgol, mae pob un o'r disgyblion yn ennill ystod addas o gymwysterau neu unedau credyd mewn cyrsiau sy'n gweddu'n dda i'w nodau a'u dyheadau yn y dyfodol. Mae'r cymwysterau hyn yn cynnwys unedau ar lefel mynediad, cymwysterau TGAU mewn mathemateg a Saesneg, a chymwysterau galwedigaethol mewn adeiladu, coginio a garddwriaeth. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae pob un o'r disgyblion wedi symud yn llwyddiannus i addysg bellach neu gyflogaeth.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae gan lawer o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Bryn Castell safonau lles da. Maent yn gwerthfawrogi'r ethos gofalgar, cynhwysol a chroesawgar yn yr ysgol lle cânt eu hannog i gymryd cyfrifoldeb amdanyn nhw eu hunain a bod yn gymwynasgar i bobl eraill.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol a pharchus iawn gyda staff a'u cyfoedion. Maent yn gwrtais a pharchus at ei gilydd a staff ac yn ffurfio perthnasoedd ymddiriedus. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at y cynnydd a wna llawer ohonynt, o ran magu eu hunanhyder wrth siarad â phobl newydd. Mae'r cynnydd hwn yn hunanhyder llawer o ddisgyblion yn creu llawer o argraff.

Mae senedd y disgyblion yn gryfder yn yr ysgol. Mae disgyblion yn elwa ar yr hyfforddiant i gefnogi eu dealltwriaeth o ddemocratiaeth a'u rolau a'u cyfrifoldebau penodol. Mae'r strwythur ffurfiol gydag ystod addas o is-bwyllgorau yn eu galluogi i ddylanwadu ar faterion fel targedau presenoldeb, polisi ymddygiad a phenodiadau staff.

Mae disgyblion yn mwynhau ystod y cyfleoedd a gynigir iddynt ddysgu am gadw'n heini ac yn iach. Yn gyffredinol, gwnânt ddewisiadau iach o ran bwyd, ac maent yn mwynhau amgylchedd yr ysgol, sydd fel arfer yn bwyllog a threfnus. Bob bore, wrth iddynt gyrraedd yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gemau strwythuredig mewn ystafelloedd cyffredin gyda chymorth gan staff. Mae bron pob un o'r disgyblion yn rhyngweithio'n bwrpasol â'i gilydd a staff yn ystod y sesiynau hyn. Mae llawer ohonynt yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau amser cinio fel clwb ffilmiau, gwrando ar gerddoriaeth ac amrywiaeth o weithgareddau corfforol yn y neuadd chwaraeon neu ardaloedd y tu allan. Dros gyfnod, yn ystod y gweithgareddau anstrwythuredig hyn, maent yn dysgu rheoli eu hemosiynau ac yn gweithio'n dda fel rhan o dîm. Mae hyn yn eu helpu i ddychwelyd i ddosbarthiadau yn barod ar gyfer dysgu yn y prynhawn.

Dros gyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu a gweithredu dealltwriaeth bwerus o beth sy'n iawn a beth sydd ddim yn iawn. Maent yn ymateb yn gyson dda trwy gydol y diwrnod ysgol i staff yn arddangos ymddygiad priodol yn fuddiol. Mae ymddygiad disgyblion mewn dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol fel arfer yn gadarnhaol a chwrtais. O ran eu hanghenion pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol, mae hyn yn dangos cynnydd cryf. Mae llawer o ddisgyblion yn ymdawelu'n gyflym i weithio, yn canolbwyntio'n dda wrth ddilyn cyfarwyddiadau, ac yn dyfalbarhau'n ddiwyd. Yn gyffredinol, mae lleiafrif o ddisgyblion sydd angen mwy o gyfarwyddiadau ac arweiniad mewn perthynas â'u hymddygiad a chanolbwyntio yn ymateb yn gadarnhaol iawn i gymorth.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd materion dinasyddiaeth, cydraddoldeb ac ecoleg trwy wersi a'u gwaith ar y prosiect Ysgolion Eco. Fe wnaeth un agwedd bwysig ar eu gwaith ystyried rhoi agenda Hawliau'r Plentyn ar waith.

Mae disgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn rheolaidd yn gwneud cynnydd cryf yn eu hagweddau at ddysgu. Maent yn elwa ar y mentrau niferus sydd ar waith i gefnogi gwella presenoldeb, yn enwedig ar gyfer y disgyblion hynny sy'n wynebu rhwystrau sylweddol rhag dysgu. Er gwaethaf hyn, mae presenoldeb yn parhau i fod yn broblem sylweddol i ormod o ddisgyblion.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang ac ysgogol sy'n bodloni anghenion bron pob un o'r disgyblion. Mae cynlluniau gwaith yn ymateb yn briodol i'r cwricwlwm newydd cynlluniedig, ac yn cynnwys ffocws ar yr iaith Gymraeg a'i diwylliant. Maent yn darparu cyfleoedd addas ar gyfer dysgu personoledig i ddisgyblion ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a defnyddio TGCh. Yn ychwanegol, maent yn sicrhau mai lles disgyblion sydd wrth wraidd cwricwlwm eang a chytbwys.

Mae cwricwlwm cyfnod allweddol 4 ac ôl-16 yn sicrhau bod anghenion llwybrau dysgu disgyblion unigol yn cael eu bodloni'n dda trwy weithgareddau dysgu ysgogol. Mae pob un o'r disgyblion hŷn yn dilyn llwybr achredu priodol a chydnabyddedig, fel cymwysterau lefel mynediad. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd galwedigaethol hynod werthfawr, gan gynnwys ffotograffiaeth, adeiladu a gofal anifeiliaid bach, sy'n cymell disgyblion yn dda. Mae cyfleoedd diddorol a pherthnasol sy'n gysylltiedig â gwaith yn helpu paratoi disgyblion ar gyfer eu dyfodol.

Mae athrawon yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda'u disgyblion, ac yn rhoi profiadau cymhellol iddynt er mwyn ysgogi eu hymgysylltiad. Er gwaethaf anghenion emosiynol ac ymddygiadol cymhleth y disgyblion, mae'r amgylchedd dysgu yn gyson bwyllog a threfnus. Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel iawn o ymddygiad a chyfranogiad disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos parodrwydd i ddysgu ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol. Mae arferion a strwythurau clir yn arwain at drosglwyddo diogel a threfnus o fewn sesiynau, ac ar draws gweithgareddau amrywiol y diwrnod ysgol.

Mae athrawon yn gosod targedau addas ar gyfer mwyafrif eu disgyblion fel eu bod yn elwa ar brofiadau ac yn parhau i atgyfnerthu dysgu blaenorol. Pan fydd angen, mae disgyblion yn elwa ar sesiynau rheolaidd a strwythuredig ar wahân i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, mae gormod o ddibynnu ar daflenni gwaith, ac o ganlyniad, nid yw athrawon yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig yn gyson.

Mewn gwersi, mae staff yn defnyddio adborth llafar adeiladol yn hynod effeithiol i annog disgyblion i ymestyn eu dysgu. Mae eu sylwadau ysgrifenedig yn cynorthwyo disgyblion i ddeall beth mae angen iddynt ei wneud nesaf er mwyn gwneud cynnydd.

Mae athrawon yn gwybod beth yw cryfderau eu disgyblion, a'u rhwystrau rhag dysgu. Maent yn cydweithio'n dda i ddatblygu gwersi difyr a chyfoes sy'n hyrwyddo medrau meddwl a datrys problemau. Er enghraifft, mewn gwyddoniaeth, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn ymchwilio i drydan wedi'i gynhyrchu o ffrwythau. Mae disgyblion cyfnod allweddol 3, fel rhan o'u gwaith dylunio a thechnoleg, yn ymchwilio i'r materion yn ymwneud â phlastig, yn mynd i godi sbwriel ac yn gwneud blanced.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd dyddiol defnyddiol i ddisgyblion ddatblygu medrau adeiladu tîm trwy weithgareddau a sesiynau llythrennedd a rhifedd hynod ddifyr. Er enghraifft, yng nghyfnod allweddol 2, caiff disgyblion gyfleoedd i weld, meddwl a rhyfeddu, trwy brosiect 'Yn y Goedwig' ('Into the Woods'). Yng nghyfnod allweddol 3 a'r ddarpariaeth arbenigol, mae disgyblion yn datblygu dulliau ysgrifennu trwy sesiynau cyfathrebu ffocysedig, drama a chwarae rôl lle maent yn atgyfnerthu eu medrau.

Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gynyddu eu hymgysylltiad, a datblygu hyder tra'n gwella eu medrau corfforol. Mae'r rhain yn cynnwys sesiynau nofio rheolaidd a gemau yn y neuadd chwaraeon amser cinio. Mae cyfleoedd dysgu oddi ar y safle yn gymhellol a chyffrous. Maent yn cynnig cyfle i ddisgyblion lwyddo mewn amrywiaeth o wahanol amgylcheddau a gweithgareddau, fel cwad-feico a gyrru ceir bach.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgar sy'n gwneud cynnydd cryf tuag at ei nod i fod yn rhywle y gall disgyblion gyflawni, a mwynhau eu haddysg. Trwy amgylchedd diogel a chefnogol, mae staff yn galluogi disgyblion i ddatblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i lwyddo a bod yn hapus. Mae staff yn cynnwys disgyblion newydd yn yr ysgol ar unwaith, ac yn canolbwyntio'n fedrus ar sefydlu ymddygiadau cadarnhaol, perthnasoedd gwaith a gwella eu lles. Mae hon yn nodwedd gyson gref yng ngwaith yr ysgol.

Mae’r ysgol yn gweithio’n dda i ddatblygu a chynnal perthnasoedd cefnogol gyda rhieni a gofalwyr. Mae’n cadw mewn cysylltiad â nhw trwy wasanaeth negeseuon testun yr ysgol, neu’n ffonio’r cartref yn rheolaidd. Mae rôl hynod ddefnyddiol gan dîm cyswllt cartref ac adfer dysgu’r ysgol o ran helpu teuluoedd i feithrin cymhelliant, hunan-barch a medrau dysgu'r disgyblion.

Mae’r ysgol wedi gwneud partneriaethau gwerthfawr iawn ag ystod o weithwyr proffesiynol amlasiantaethol. Mae’r rhain yn helpu meithrin ei gallu i fodloni anghenion yr holl ddysgwyr mewn ffordd gyfannol. O ganlyniad, gall yr ysgol gefnogi anghenion cyfathrebu disgyblion yn well, cynnig cymorth i ddisgyblion sy’n cael eu heffeithio gan y ffaith fod aelodau o’u teulu yn y carchar, a chodi ymwybyddiaeth disgyblion am bwysigrwydd mynychu’r ysgol yn rheolaidd, a pherthnasoedd iach.

Mae’r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu ffyrdd iach o fyw ac ymddygiadau iach. Caiff bwyta ac yfed yn iach ei annog yn llwyddiannus ar draws yr ysgol, a chyfeirir at hyn yn gyson mewn ystafelloedd dosbarth ac ardaloedd cymunol fel siop goffi’r ysgol, sef Y Cwpan Bach. Mae clybiau a gweithgareddau amser cinio trwy gydol yr wythnos yn galluogi disgyblion i ddatblygu medrau buddiol mewn ffitrwydd, medrau cymdeithasol a meithrin perthnasoedd gyda chyfoedion.

Mae’r pwyllgor eco wedi helpu gwneud gwelliannau buddiol i amgylchedd yr ysgol, er enghraifft yng ngardd bywyd gwyllt yr ysgol ac mewn prosiectau ailgylchu a chompostio. Mae senedd yr ysgol yn gorff gweithgar o gynrychiolwyr disgyblion, sy’n cyfarfod bob mis i weithio ar brosiectau fel codi arian.

Mae’r ysgol yn trefnu darpariaeth werth chweil ar gyfer gweithredoedd o addoli ar y cyd ym mhob cyfnod allweddol. Ar ddechrau a diwedd yr wythnos, mae staff yn rhannu themâu testun a dathliadau cyflawniad yn effeithiol mewn gwasanaethau ysgol gyfan. Mae staff yn cysylltu testunau gwasanaeth yn ddychmygus â themâu’r cwricwlwm a lles. Er enghraifft, maent yn cynnig sesiynau rhyngweithiol i ddisgyblion ôl-16 ddysgu am y cynnwys siwgr mewn diodydd egni, diodydd pefriog, ysgytlaethau a dŵr.

Mae’r ysgol yn cynllunio a chyflwyno rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol lwyddiannus, sy’n gryfder yn yr ysgol. Mae’n darparu ystod eang o wybodaeth fuddiol i ddisgyblion sy’n briodol i’w hoedran a’u hanghenion. Er enghraifft, mae’n cwmpasu meysydd pwysig fel radicaleiddio, addysg rhyw a pherthynas iach, a diogelwch ar-lein.

Pan fydd disgyblion yn dechrau yn yr ysgol, mae staff yn gwneud defnydd effeithiol o ystod berthnasol o asesiadau cychwynnol ar y cyfan. Gwnânt ddefnydd hynod effeithiol o olrhain a monitro gwybodaeth am ymddygiad. Defnyddiant y data hwn yn dda iawn i gynllunio gweithgareddau strwythuredig ac ymyriadau cadarnhaol ar gyfer disgyblion. Mae staff yn olrhain medrau llythrennedd, rhifedd a medrau cymdeithasol disgyblion yn briodol gan ddefnyddio fframwaith yr ysgol ar gyfer asesu. Fodd bynnag, ceir diffyg eglurder ynglŷn â’r cynnydd y mae disgyblion yn ei gyflawni o fewn lefelau.

Mae’r ysgol yn casglu ystod addas o wybodaeth o asesiadau yn rheolaidd i lywio targedau mewn cynlluniau addysg unigol (CAUau). Fodd bynnag, mae rhai targedau a osodir ar gyfer disgyblion ar eu CAUau yn rhy ddisgrifiadol ac nid ydynt yn nodi’n glir beth yw’r camau nesaf ar gyfer gwella.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r ysgol yn elwa ar weledigaeth ac uchelgais y pennaeth i wella deilliannau disgyblion trwy ystod gymhellol o brofiadau o ansawdd uchel i gefnogi eu dysgu a'u lles. Mae'r pennaeth yn cyfleu gweledigaeth yr ysgol, sef 'gyda'n gilydd, gallwn ni gyflawni' ('together we can achieve') yn dda. Cefnogir ei hymrwymiad i ddiwallu anghenion disgyblion mewn amgylchedd meithringar a chynhwysol trwy ymgysylltu â phob un o'r staff a'r partneriaid sy'n gweithio gyda'r ysgol.

Mae'r uwch dîm rheoli yn creu ethos cefnogol a gofalgar lle mae staff wedi ymrwymo i'r ysgol ac yn gweithio gyda'i gilydd yn dda. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o staff a disgyblion. Mae'r tîm a gryfhawyd yn ddiweddar eisoes yn dechrau dylanwadu ar newid, er enghraifft yn cryfhau'r ddarpariaeth a chynllunio ar gyfer carfan gynyddol y disgyblion sydd ag anhwylder y sbectrwm awtistig. Ceir strwythur rheolaeth linell diffiniedig, yn cynnwys cyfarfodydd wedi'u hamserlennu'n rheolaidd. Mae'r cyfarfodydd hyn yn mynd i'r afael yn briodol â materion yn ymwneud â chynnydd a lles disgyblion.

Mae arweinyddiaeth, hunanwerthuso a chynllunio gwelliant effeithiol wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau pwysig ar waith yr ysgol, fel safonau a lles disgyblion, a rheoli'r twf sylweddol diweddar yn niferoedd y disgyblion yn effeithiol. Trwy brosesau hunanwerthuso addas, mae uwch arweinwyr wedi nodi'r rhan fwyaf o gryfderau a gwendidau'r ysgol yn briodol.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn addas, ac mae amcanion yn cyd-fynd yn dda â blaenoriaethau'r ysgol. Mae arweinwyr yn gwybod beth yw cryfderau eu staff, ac yn cymryd camau perthnasol i wella tanberfformio gan staff, pan fydd angen. Mae ganddynt hanes cryf o fynd i'r afael yn gryf â thanberfformio ymhlith staff. Maent yn deall anghenion staff ac yn gwneud trefniadau sensitif i gefnogi eu lles. Mae hyn yn arbennig o fuddiol o ran cefnogi gwydnwch staff wrth gynnal amgylchedd dysgu pwyllog pan fydd anghenion disgyblion yn hynod heriol yn emosiynol a chorfforol.

Mae'r ysgol yn allblyg ac yn ceisio ymchwil berthnasol, cyngor arbenigol ac arfer dda ysgolion eraill i lywio'i harfer. Un o gryfderau'r ysgol yw ei chefnogaeth ar gyfer dysgu proffesiynol staff i ddatblygu eu medrau a'u harbenigedd ymhellach. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni a mentora allanol lleol a chenedlaethol trwy strwythur rheoli'r ysgol. Rhoddir cyfleoedd buddiol i bob un o'r staff rannu syniadau ac arfer addysgu trwy arsylwi cymheiriaid, sesiynau wythnosol a HMS. Trwy hyfforddiant rheolaidd, mae'r ysgol yn ymateb yn dda i ddatblygu dealltwriaeth ac arbenigedd staff i fodloni anghenion nifer uwch ac ystod ehangach y disgyblion ar y gofrestr.

Mae llywodraethwyr yn frwdfrydig ac yn cefnogi'r ysgol yn dda. Maent wedi sefydlu pwyllgorau defnyddiol sydd, er enghraifft, yn canolbwyntio'n dda ar gyllid a staffio. Mae eglurder y wybodaeth a ddarperir iddynt gan y pennaeth wedi eu galluogi i wneud penodiadau effeithiol, datrys y diffyg yng nghyllideb yr ysgol a gwella diogelwch y safle trwy drafodaethau defnyddiol gyda datblygwr mewn datblygiad adeilad cyfagos.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/04/2019